Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 274

Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023

Hysbysiad ysgrifenedig

5.—(1) Rhaid i'r corff cyfrifol hysbysu'r person perthnasol yn ysgrifenedig yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r corff cyfrifol gymryd pob cam rhesymol i anfon yr hysbysiad ysgrifenedig o dan baragraff (1) at y person perthnasol o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y mae'r corff cyfrifol yn hysbysu'r person perthnasol o dan reoliad 4(1).

(3) Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig o dan baragraff (1) gynnwys—

(a) disgrifiad o unrhyw ystyriaeth gychwynnol o'r canlyniad andwyol hysbysadwy,

(b) ymddiheuriad, ac

(c) yr wybodaeth a ddarperir o dan reoliad 4(3)(b), 4(3)(d), 4(3)(e), 4(3)(f) ac, os yw'n berthnasol, 4(3)(g).